**Geiriau olaf yr hawddgar E.D. JONES – fe anfonodd yr ysgrif isod i'r Casglwr ychydig ddyddiau cyn ei farw sydyn.**

# Llyfrau pobol eraill

SYMBYLWYD fi gan wahoddiad y Golygydd am wybodaeth am lyfrau a fu'n eiddo i eraill i agor a sylwi ar dudalennau blaen llyfrau ar fy silffoedd. Gobeithio y bydd casglwyr eraill yn ymateb i'w wahoddiad. Dyma ganlyniad yr ymchwil.

Calamy, Ellmund, *An account of the Ministers...ejected after the Restoration*, 1713.
Llofnod *Thos William his book 1795. Fonmon in the parish of Penmark.*
Dyma'r emynydd pruddglwyfus Thomas William, Bethesda'r Fro, a'r gyfrol yn un o ddogfennau pwysig Anghydffurfiaeth yr ail ganrif ar bymtheg. Prynais y gyfrol a oedd ar y pryd yn ddigon salw ei gwedd yn siop hen lyfrwerthwr o'r enw Lovegrove mewn stryd gefn yn Amwythig. Mae'n awr wedi ei golchi a'i glanhau a'i chaeadu mewn lledr coch teilwng o'i phwysigrwydd.

Davies, David, *Ardudwy a'i gwron* 1914.
Llofnodion dau o Gymry Llundain: John Phillips, 146 Grt. Portland St. a D.R. Hughes, yr eisteddfodwr pybyr. Cofiaf swpera gyda mab David Davies yn fflat y Matron uwchben Ysbyty Westminster yn y pum degau.

Davies, John, y geiriadurwr, *Antique Lingual Britannicae...Rudimenta*, sef Gramadeg John Davies o Fallwyd, argr. 1809.
*Tegid yn annerch Carnigli (sic) 11 Hydref 1853*

Davies, Gilbert (gol) *The Creation of the World...written in Cornish..1827*
Cyflwyniad *William Sancroft Holmes, Esq. from the Editor.*
Un o'r chwareu-gerddi crefyddol yn y Gernyweg. O flaen y testun y mae anerchiad ar y Literary Fund Society a sefydlwyd gan David Williams, y llenor.

Evans, George Eyre, *Cardiganshire: its Antiquities....*1903.
Rhif 73 o argr. o 320 o gopiau gyda llofnod yr awdur, ond nid yn ei hoff inc gwyrdd.
Llofnod perchennog a thanysgrifiwr *J. Davies, Dolwyddelan Vicarage, Feby.24, 1904* sef John Davies, Isfryn.

Gruffydd, W.J. *Y Flodeugerdd Newydd*, 1909
llofnod: D.J.Williams (Llandderfel) 1918.

Jones, J. Ifans *A History of printing and printers in Wales to 1810.*
*llofnod J.Ll. Thomas*

*Lewis, Samuel Topographical Dictionary of Wales*, 1842
llofnodion T. Coppard R. Ivor Parry, Llys Ivor, Pwllheli

Lluyd, Edward, *Archaeologia Britannica....*1707
nodyn pensil *Bought at Sir Thomas Phillips' sale on 2nd May 1913 at Sotheby, Strand. No. 1207 in catalogue.* Llofnod C.M. Davies. Nodyn pensil yn dangos mai o gasgliad y llyfrbryf rhyfeddol hwnnw y daeth y gyfrol. Un nodwedd arbennig yw fod un clymiad mewn llawysgrifen Wyddelig, i gyflawni diffyg yn yr argraffiad printiedig, a'r pamffledydd gwleidyddol a anwyd yn Eglwys Llan, Morgannwg.

Matthews, T. *Welsh Records in Paris*, 1910
Cyflwyniad awdur: *D'am mignon ha kenwood ker an Aotrou Dangwalle Kinnigan gras Kalon al levr man. T. Matthews.* Copi papur gwaith llaw i danysgrifwyr.

Morris, Robert Prys, *Cantref Meirionydd,*. 1890
llofnod Richard Williams, Bron y gog, 1890.

Pokorny, Julius, *A Concise Old Irish Reader* 1914
llofnod: Henry Lewis (sef yr Athro Cymraeg)

Pryce, William *Archaeologia Cornu Britannica, or an Essay to preserve the Ancient Cornish Language*..1790
Gyda phedair tudalen o nodiadau wedi eu tynnu gan berchen di-enw o *Mullyon: its History, Scenery, and Antiquities* gan E.J. Anury, ficer y plwy, yn cynnwys rhestr o enwau ffermydd a chaeau yn y plwy, gyda chyfieithiadau Saesneg.

Salesbury, William, *Testament Newydd*, argr. 1850
llofnod:R.J. Prys Gweirydd ap Rhys, 1857
Testament *Novum Testamtum Vulgatae editorius ...cui adjungitir libellus De Imitatione Christi*, 1848.
cyflwyniad: *Revd. J. Davies from G.W., Rome, Oct.S. George 1853,'Ora pro me'*
Cyfrol fechan 115mm wrth 66mm, yn cynnwys y Fwlgat a thestun Lladin *Patrwm y Gwir Gristion* Thomas a Kempis wedi eu rhwymo ynghyd.
Ysgrifennodd John Davies ei enw yn Lladin y tu mewn i'r clawr *Joannes Paternus Gildas Davies.*

Williams, John. *Llyfr Baglan 1600-1607*
(gol. Joseph Alfred Bradney) 1910.
Cyflwyniad y golygydd: Llew Tegid, *Cambro Britanno cujus nomen apud bardos Insulae Brittannicae praestans est et vrisigrie, hunc gentiumm Cambrensium prosapias complectentem librium, summa â cum observantia dd.* Achydd Glan Troddi, Tal-y-Coed, Pridie Non Sept. A.S. 1913
Achydd Glan Troddi oedd enw Bradney yng Ngorsedd y Beirdd.
Y cysylltiad hwnnw a barodd i Joseph Bradney, Syr Joseph wedi hynny, gyflwyno'r gyfrol i Llew Tegid.

---

HUW WALTERS
yn bwrw trem ar yr

# INC YM MHWLLHELI

WRTH olrhain twf datblygiad y gelfyddyd o argraffu yn nhref Pwllheli, yn y degfed rhifyn o'r **Casglwr** ('Printio Tref Pwllheli Cyn 1900', Mawrth 1980), rhoes Mr. D.G. Lloyd Hughes gryn sylw i weithgarwch Hugh Hughes *(Tegai; 1805-64)*, fel argraffydd a chyhoeddwr y dref.

Dangosodd Mr Hughes taw Tegai a sefydlodd ddau o newyddiaduron Pwllheli sef *Yr Eifion* a'r *Arweinydd* yn ystod y pumdegau, eithr symudodd i dref Aberdâr ym Morgannwg yn 1859 lle bu'n weinidog ar eglwys Bethel, un o hen achosion y Diwygwyr Wesleaidd a droesai'n eglwys Annibynnol.

Yno ym mhulpud Bethel, ac yntau ar ganol pregethu y trawyd ef yn wael ar ddechrau Rhagfyr 1864, a bu farw ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

Dengys Mr. Hughes ymhellach taw enw Henry Hughes a geir wrth rifynnau olaf *Yr Arweinydd* fel argraffydd a chyhoeddwr, a gofyn pwy allai'r gŵr hwn fod. Hoffwn awgrymu ar sail y dystiolaeth a ganlyn taw un o feibion Tegai ydoedd.

Ychydig iawn o wybodaeth a roddir am deulu Tegai yn y cofnod sydd amdano gan Dr. D. Tecwyn Evans yn *Y Bywgraffiadur Cymreig;* yn wir ni sonnir yr un gair am ei wraig na'i blant, a thasg anodd erbyn heddiw yw ceisio dod o hyd i wybodaeth amdanynt. Fodd bynnag, gellir olrhain hynt a helynt rhai o aelodau'r teulu yng ngholofnau gwasg newyddiadurol a chylchgronol ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yr oedd Jane ei briod yn ferch i Henry Roberts o Landygai. Fe'i ganwyd yn 1806 a phriodwyd hi â Thegai yn 1924. Bu iddynt bedwar ar ddeg o blant, ac ymfudodd y teulu i'r Taleithiau Unedig yn gynnar yn 1866, ychydig dros flwyddyn wedi marw'r tad. Buont yn byw yn Efrog Newydd am gyfnod gan symud oddi yno i Bath, Pennsylvania yn ddiweddarach.

Bu Jane Hughes farw yn Utica ar 5 Mai 1885, ac yn ôl y deyrnged a gyhoeddwyd iddi ar dudalennau'r *Cenhadwr Americanaidd* y mis Mehefin canlynol, yr oedd saith o'r plant ar dir y byw y flwyddyn honno, pedwar yn Utica, dau ym Mhennsylvania, ac un yn Lloegr.

* * *

YR OEDD un o'r meibion, Henry Hughes wedi ei gladdu yn Awst 1866 ychydig wedi i'r teulu gyrraedd America. Bu'n argraffydd yn Utica, Efrog Newydd, a oedd bryd hynny yn ganolfan i argraffu Cymraeg y Taleithiau. Dywedir hefyd ei fod yn llenor ac yn fardd a arddelai'r ffugenw Ab Tegai, ond ni lwyddais i ddod o hyd i ddim o'i waith yn y wasg gyfnodol hyd yn hyn.

Cyhoeddwyd nodyn o deyrnged iddo ar ei farwolaeth yn y *Gwladgarwr*, yr wythnosolyn a gyhoeddwyd yn Aberdâr, ac awdur y nodyn hwnnw, Dafydd Joshua (*Caerwyson*) yn un o'i gyfoedion yng Nghymru.

Ymddengys i'r ddau fod yn argraffwyr yn swyddfa Josiah Thomas Jones yn Aberdâr yn ystod y chwedegau cynnar. Mae'n fwy na thebyg felly mai Ab Tegai yw'r Henry Hughes a fu'n gyfrifol am lywio rhifynnau olaf *Yr Arweinydd* drwy'r wasg ym Mhwllheli.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd i un arall o feibion Tegai, John Quincy Hughes a aned yn Aberdâr ym 1862, yntau hefyd ennill ei fywoliaeth fel argraffydd. Prentisiwyd ef yn swyddfa'r *Drych*, newyddiadur wythnosol Cymry America, a bu'n gweithio wedyn yn swyddfa'r *Utica Morning Herald*, newyddiadur gyda llaw a sefydlwyd gan Ellis Henry Roberts, Cymro o Lanuwchllyn.

Yna yn 1892 cymerth ofal argraffwasg ysbyty Utica, ac ymddeolodd yn 1926. Bu John Quincy Hughes yn arbennig o weithgar gyda chymdeithasau Cymraeg y Taleithiau Unedig. Bu'n is-lywydd Cymdeithas Cymreigyddion Efrog Newydd, ac yn un o golofnau'r achos Cymraeg ym Methesda, Utica.

Mae'n ddiddorol sylwi felly i ddau o feibion Tegai ddilyn eu tad fel argraffwyr.